**Ken Skates AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-770
Ein cyf/Our ref KS/02791/17

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

government.committee.business@wales.gsi.gov.uk

18 Awst 2017

Annwyl David

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 31 Gorffennaf ynglŷn â Deiseb P-05-770 i ailagor Gorsaf Reilffordd Crymlyn.

Er inni ofyn i fwy o feysydd gael eu datganoli i Gymru, Llywodraeth y DU sy'n parhau i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gyllido seilwaith y rheilffyrdd. Rydym, fodd bynnag, yn defnyddio ein pwerau i hwyluso datblygiad y gorsafoedd rheilffyrdd. Drwy wneud y gwaith hwn, rydym yn creu sefyllfa lle mae gan orsafoedd gynigion yn barod iddynt fedru elwa ar alwadau am geisiadau am gyllid.

Mae fy llythyrau diweddar at Aelodau'r Cynulliad yn esbonio'r broses yr ydym yn ei dilyn i asesu safleoedd posibl. Rydym bellach wedi cychwyn ar gam cyntaf y rhaglen waith hon, a'r gorsafoedd rhanbarthol a gafodd eu dewis i'w hasesu ymhellach yw'r rheini a gafodd y sgoriau uchaf ar draws yr holl feini prawf. Ar ôl i'r safleoedd blaenoriaeth hyn gael eu hasesu yng Ngham 2, bydd y rheini sy'n debygol o gyflwyno achos busnes cadarn yn symud ymlaen at Gam 3 lle y bydd y cynnig yn cael ei ddatblygu yn fanylach.

Wrth weithio ar Gam 3, byddwn hefyd yn asesu'r grŵp nesaf o orsafoedd sydd ar restr Cam 1. Rhagwelwn y byddwn yn dechrau'r gwaith hwn yn gynnar yn 2018. Yn ein hasesiad cychwynnol, sgoriodd Gorsaf Crymlyn yn dda ar sail y meini prawf ar gyfer achos trafnidiaeth. Gan fod y broses asesu yn un barhaus ac ailadroddol, bydd Crymlyn yn cael ei asesu yn y pen draw ynghyd â'r gorsafoedd eraill sydd ar y rhestr.

Yn gywir

**Ken Skates AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.